Sesiwn 1: Cyflwyniad i'r Beibl
Arweiniad Grwpiau Bychan

Cynhesu (cysylltu â'r thema)

Mae straeon yn rymus. Rhannwch rhai o'ch hoff straeon - efallai o ffilm, lyfr neu ddrama. Rhannwch y rheswm dros eich dewis.

Mae byd-olwg rhywun yn cael ei ddatgelu mewn straeon. O edrych ar y byd o'n cwmpas, a ydym angen profi stori well? Pam y gallai'r Beibl gynnig stori well?

Neges (Fideo cryno)

Fideo pump i saith munud gan Jos Edwards sy'n crynhoi stori fawr y Beibl a sut mae'n berthnasol i'n bywydau ni.

Darlleniadau beiblaidd (i'w cyd-ddarllen)

2 Timotheus 3.15-17, Salm 119.105-114, Luc 24.13-35

Amser trafod

- *Rydym yn sôn am y Beibl fel llenyddiaeth gyda'r gorau. A oes gennych hoff ddarn, adnod neu stori o'r Beibl?*
- *Beth yw eich profiad o ddarllen y Beibl? Beth yw'r llawenydd a thristwch rydych wedi ei wynebu gydag ef?*
- *A yw yn eich synnu bod y Beibl yn un stori fawr? Beth yw'r llinynnau sydd yn cysylltu'r cyfan? Darllenwch Luc 24.13-35 ac ystyriwch y gwahaniaeth y gall gweld y Beibl fel un stori o harmoni rhyfeddol ei wneud i chi heddiw?*
- *'Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd pan mae pobl yn cysylltu â'r Beibl. Beth wnewch chi o'r honiad hwn? Ydych chi erioed wedi profi hyn?*

Amser ymateb (adlewyrchu a gweddio)

Darllenwch 2 Timotheus 3.16 etc. Cymrwch amser i adlewyrchu ar yr adnod hon a nodwch rywbeth o'r adnod / ddysgeidiaeth sydd wedi eich ysbrydoli. Treuliwch amser mewn gweddi gyda'ch gilydd yn gofyn i Dduw siarad gyda chi a'ch trawsffurfio wrth i chi ddilyn y daith yma drwy stori'r Beibl cyfan.

Cynnwys dydd

Parhewch â'r daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol o gynnwys ac Ysgrythur yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Story that makes sense of life* (Hodder).